# Cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd

## Manyleb ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster Sylfaen Cyffredinol newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

DRAFT

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## CYNNWYS


1 CYFLWYNIAD ... 6
- 1.1 Nodau ... 6
- 1.2 Cwricwlwm i Gymru ... 6
- 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant ... 7
- 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ... 8
- 1.5 Defnyddio iaith ... 8
- 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ... 8

2 CYNNWYS Y PWNC ... 9
- Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ... 9
- Uned 1: Darllen i ddeall a chyfeirio at gyd-destunau cyfarwydd ... 10
- Uned 2: Llafaredd – ar gyfer bywyd bob dydd ... 12
- Uned 3: Ysgrifennu – at ddibenion ymarferol ... 15
- Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ... 17

3 ASESU ... 18
- 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ... 18
- 3.2 Trosolwg o'r Asesu ... 19
- 3.3 Rheoli'r asesiadau ... 20
- 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol ... 21

4 CAMYMDDWYN ... 22

5 GWYBODAETH DECHNEGOL ... 23
- 5.1 Cofrestru ... 23
- 5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ... 24
- 5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ... 24
- 5.4 Ailsefyll asesiadau ... 25
- 5.5 Ailsefyll y cymhwyster ... 25

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 26


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ymgysylltu, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn tywys ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cenedlaethol i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, a chynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu. Gyda'r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn gallu magu hyder, yn datblygu gwybodaeth hanfodol, yn dod i ddeall sgiliau, ac yn mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Mae'r strwythur unedol sydd iddynt yn un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol. Dyma sy'n caniatáu i'r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd gan bwyll, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw'n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly'n golygu bod modd cyflawni'n uchel mewn un uned a hynny wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae'r profiad asesu felly'n un cynhwysol a chefnogol ar y sail hwn.

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o gysyniadau a ddatblygodd dysgwyr yn rhan o'u dysgu rhwng 3 ac 14 oed wrth ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysylltu â'r pedwar diben a'r egwyddorion cynnydd, ac yn cefnogi hynny. Er eu bod yn wahanol iawn i'r TGAU, cawsant eu llunio gennym i gynnig sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i'r TGAU cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar sgiliau a dealltwriaeth debyg.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

# Cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Darllen i ddeall a chyfeirio at gyd-destunau cyfarwydd**<br>**Dau brawf pwnc**<br>**25% o'r cymhwyster**<br>**Cwestiynau aml-ddewis**<br>**Wedi'u gosod gan CBAC, a'u marcio gan CBAC** **40 marc** |
| Darllen testunau syml ac ateb cwestiynau aml-ddewis yn seiliedig ar gyd-destunau Yr Ardal a Byd Gwaith.<br>Gall canolfannau ddewis gweinyddu'r profion pwnc amlddewis naill ai yn ddigidol neu drwy fformat papur o fewn ffenestr asesu bedair-wythnos. Hyd bob prawf yw 30 munud. |
| **Uned 2: Llafaredd – ar gyfer bywyd bob dydd**<br>**Asesiad ymarferol**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**Tasgau llafaredd unigol**<br>**Wedi'u gosod gan CBAC, eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC**<br>**40 marc** |
| Deall ac ymateb ar lafar i dasgau wedi'u seilio ar ddwy thema eang Yr Ardal a Byd Gwaith.<br>Bydd 4-6 munud gan ymgeiswyr i gwblhau'r asesiad hwn. |
| **Uned 3: Ysgrifennu – at ddibenion ymarferol**<br>**Asesiad ysgrifenedig**<br>**35% o'r cymhwyster**<br>**Dwy dasg ysgrifennu**<br>**Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC** **20 marc** |
| Ysgrifennu i gyfleu gwybodaeth ar gyfer tasgau wedi'u seilio ar ddwy thema eang Yr Ardal a Byd Gwaith. Gall ymgeiswyr gael hyd at 45 munud i gwblhau pob tasg |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd unedau 1 a 2 ar gael o 2028, gydag Uned 3 ar gael o 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: Cliciwch yma i roi'r rhif achredu.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae'r cymhwyster Sylfaen Cymraeg Craidd yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg
- cael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
- cyfathrebu'n weddol glir a chywir yn Gymraeg
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa a strwythur y Gymraeg
- mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at wahanol gynulleidfaoedd a dibenion
- cyfrannu i sgwrs / trafodaeth
- datblygu gwybodaeth a sgiliau Cymraeg sy'n addas ar gyfer y gweithle

Mae lluniad cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd yn seiliedig ar ystyriaethau pwnc penodol Llywodraeth Cymru a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:

- deall y byd o'n hamgylch
- mwynhau'r Gymraeg a gweld gwerth i'r iaith honno y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- defnyddio iaith sy'n gysylltiedig â diddordebau
- datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cymdeithasu ac yn y gweithle
- amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr glywed, gweld a darllen deunydd yn yr iaith Gymraeg
- meithrin sgiliau ieithyddol er mwyn defnyddio'r Gymraeg.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 17; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Bydd y cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddatblygu eu dealltwriaeth, a'u gallu i ymateb yn effeithiol
  - rhyngweithio a meithrin perthnasoedd
  - sbarduno eu dychymyg.

- Cefnogi egwyddorion cynnydd[2] drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
  - tyfu mewn ffordd gyfannol o ran sut maen nhw'n deall ac yn gallu gwneud defnydd pwrpasol o iaith, llythrennedd a chyfathrebu
  - datblygu eu repertoire ieithyddol drwy ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweithio
  - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n gyda gynulleidfaoedd gwahanol
  - meithrin sgiliau iaith a mynegi
  - trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod i gyd-destunau newydd gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol.

- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ieithoedd[3] drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
  - adeiladu ar wybodaeth flaenorol dysgwyr o iaith (ieithoedd) i gefnogi dysgu'r Gymraeg
  - clywed, gweld, a darllen Cymraeg
  - darparu cyfleoedd addas a digonol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn ffordd bwrpasol ac mewn cyd-destun dilys.

## 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i TGAU Cymraeg Craidd a chymwysterau cysylltiedig eraill. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

[1] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig – Hwb (llyw.Cymru)
[2] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;Egwyddorion cynnydd – Hwb (llyw.Cymru)
[3] Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.Cymru)

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoli o fewn y cymhwyster yn darparu arwydd o'r ganran ragweledig o ODA sy'n ofynnol ar gyfer pob uned.

Cyfanswm amser cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwyr eu treulio i gyflawni cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac amser ychwanegol a dreulir yn paratoi, astudio a rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster gael eu harwain. Yn unol â hynny, mae cyfanswm yr amser cymhwyso wedi'i osod ar 120 awr.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, beth bynnag fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion dylunio cynhwysol wedi'u cymhwyso trwy gydol y cymhwyster, gan gynnwys defnyddio iaith glir a diduedd ac enghreifftiau amrywiol. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn mewn asesiadau ac arddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid y galw arfaethedig o'r asesiad ond yn cefnogi mynediad teg. Ceir canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau JCQ. O ganlyniad i gynllunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, ychydig iawn o ddysgwyr ddylai ddod ar draws rhwystr llwyr i unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r ddau bonyn canlynol:

- Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd ac at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 1: Darllen i ddeall a chyfeirio at gyd-destunau cyfarwydd

Dau brawf pwnc
25% o'r cymhwyster
Darllen testunau syml ac ateb cwestiynau aml-ddewis
Wedi'i gosod gan CBAC, a'i marcio gan CBAC
40 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- galluogi dysgwyr i ddarllen testunau darllen syml mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y Gymraeg
- deall ac ymateb i fathau gwahanol o destunau darllen syml
- deall y prif bwyntiau a manylion penodol o destunau darllen syml
- datblygu sgiliau darllen ac ymateb i baratoi at fyd gwaith.

Disgwylir i'r ddwy thema eang isod fod yn sail i ddysgu'r iaith:
- Yr Ardal
- Byd Gwaith

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i ddarllen testunau syml ac ateb cwestiynau aml-ddewis yn seiliedig ar gyd-destunau Yr Ardal a Byd Gwaith. Gall canolfannau ddewis gweinyddu'r profion pwnc amlddewis naill ai yn ddigidol neu drwy fformat papur, o fewn ffenestr asesu bedair-wythnos.

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Darllen i ddeall a chyfeirio at gyd-destunau cyfarwydd** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1- Manylion personol<br>1.1.2- Cyd-destun byd gwaith<br>1.1.3- Cyd-destun yr ardal<br>1.1.4- Elfennau iaith | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.1.1<br>Manylion personol | Dylai dysgwyr allu darllen y prif bwyntiau a manylion penodol o destunau darllen syml gan gynnwys:<br>• manylion personol, gan gynnwys:<br>  ◦ enw<br>  ◦ oed<br>  ◦ byw<br>  ◦ teulu/ffrindiau<br>• diddordebau/hobïau, er enghraifft:<br>  ◦ nofio<br>  ◦ hoci<br>  ◦ pêl-droed<br>• mynegi barn, gan gynnwys:<br>  ◦ hoffi/dim yn hoffi<br>  ◦ mwynhau/dim yn mwynhau<br>  ◦ eisiau/hoffi cael yn yr ardal<br>  ◦ mae'n well gen i/ 'da fi. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><td></td><td>Dylai dysgwyr allu deall ac ymateb i gwestiynau am fanylion personol.</td></tr>
<tr><td>1.1.2<br>Cyd-destun byd gwaith</td><td>Dylai dysgwyr allu darllen a deall y prif bwyntiau a manylion penodol mewn testunau darllen syml am fyd gwaith, gan gynnwys:
<ul>
<li>profiad gwaith</li>
<li>sgiliau personol, er enghraifft:
<ul>
<li>defnyddio cyfrifiadur</li>
<li>bod yn drefnus</li>
<li>bod yn daclus</li>
<li>bod yn chwaraewr tîm</li>
<li>delio gydag arian/pobl.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai dysgwyr allu deall ac ymateb i gwestiynau am fyd gwaith.</td></tr>
<tr><td>1.1.3<br>Cyd-destun yr ardal</td><td>Dylai dysgwyr allu darllen y prif bwyntiau a manylion penodol o destunau darllen syml am yr ardal gan gynnwys:
<ul>
<li>geirfa allweddol, er enghraifft:
<ul>
<li>ardal/lleoliad, er enghraifft, dinas, tref, pentref</li>
<li>berfau syml, er enghraifft, chwarae</li>
<li>tywydd</li>
</ul></li>
<li>cyfleusterau, er enghraifft:
<ul>
<li>canolfan hamdden</li>
<li>traeth/môr</li>
<li>sinema</li>
<li>bowlio deg</li>
<li>siopau.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai dysgwyr allu deall ac ymateb i gwestiynau am yr ardal.</td></tr>
<tr><td>1.1.4<br>Elfennau iaith</td><td>Dylai dysgwyr ddeall yr elfennau iaith, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwahanol amserau'r ferf, er enghraifft:
<ul>
<li>es i</li>
<li>hoffwn i</li>
<li>roedd hi'n</li>
<li>mwynheais / fwynheais i ddim</li>
</ul></li>
<li>ansoddeiriau, er enghraifft:
<ul>
<li>prysur</li>
<li>bendigedig</li>
<li>hwyl</li>
<li>diflas</li>
<li>tawel</li>
<li>uchel</li>
<li>trefnus</li>
</ul></li>
<li>amser a dyddiadau, er enghraifft:
<ul>
<li>amser, er enghraifft: diwrnod, wythnos, mis, blwyddyn</li>
<li>tymhorau</li>
<li>nesaf/diwethaf.</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 2: Llafaredd – ar gyfer bywyd bob dydd

Asesiad ymarferol
40% o'r cymhwyster
Tasgau unigol
Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
40 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- galluogi dysgwyr i ddeall a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd
- defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu gydag eraill
- defnyddio brawddegau syml i gyfleu gwybodaeth
- ymateb yn syml i gwestiynau cyfarwydd
- deall manylion penodol o fewn sefyllfaoedd cyfarwydd
- datblygu sgiliau cyfathrebu i baratoi at fyd gwaith.

Disgwylir i’r ddwy thema eang isod fod yn sail i ddysgu’r iaith:
- Yr Ardal
- Byd Gwaith

Mae’r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i:
- chwarae rôl yn seiliedig ar fyd-gwaith gan ymateb i gwestiynau
- cyflwyno gwybodaeth ac ateb cwestiynau yn seiliedig ar eu hardal.

Bydd sbardunau/senarios a chwestiynau enghreifftiol gan CBAC, fodd bynnag, gall canolfannau addasu’r cyd-destun ar gyfer eu dysgwyr. Ni fydd yn rhaid i bob dysgwr gwblhau'r un senario a chwestiynau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Llafaredd - ar gyfer bywyd bob dydd** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1- Cynnal sgwrs am fyd gwaith<br>2.1.2- Cyflwyno gwybodaeth am yr ardal<br>2.1.3- Elfennau iaith | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.1.1<br>Cynnal sgwrs am fyd gwaith | Dylai dysgwyr ddeall cwestiynau cyfarwydd am fyd gwaith.<br><br>Dylai dysgwyr allu cynnal sgwrs gyda'r athro/athrawes gan ddefnyddio brawddegau syml.<br><br>Dylai dysgwyr allu cynnal sgwrs yn cyfeirio at wybodaeth benodol am eu hunain, gan gynnwys:<br>• enw<br>• oed<br>• byw<br>• diddordebau/hobïau<br>• sgiliau personol.<br><br>Dylai dysgwyr allu cynnal sgwrs yn cyfeirio at wybodaeth benodol am swydd, gan gynnwys:<br>• math o swydd.<br><br>Dylai dysgwyr allu mynegi barn gan ddefnyddio brawddegau syml, gan gynnwys:<br>• hoffi/ddim yn hoffi.<br><br>Dylai dysgwyr allu ymateb ar lafar i gwestiynau gan ddefnyddio brawddegau syml, er enghraifft:<br>• pa fath o berson ydych chi?<br>• pam rydych chi eisiau gweithio yn/mewn...?<br>• pa sgiliau sydd angen i weithio yn/mewn…?<br><br>Dylai dysgwyr allu gofyn cwestiynau syml am fyd gwaith, er enghraifft:<br>• pryd mae'r swydd yn dechrau?<br>• faint o'r gloch mae'r gwaith yn dechrau/gorffen? |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 2.1.2<br>Cyflwyno gwybodaeth am yr ardal | Dylai dysgwyr allu cyflwyno gwybodaeth ar lafar am eu cynefin gan ddefnyddio brawddegau syml, gan gynnwys:<br>• beth sydd yn eu hardal nhw?<br>• oes atyniad(au)/cyfleusterau hamdden yn eu hardal nhw?<br>• beth sydd i weld yn yr ardal?<br>• beth sydd i wneud yn yr ardal?<br><br>Dylai dysgwyr allu mynegi barn yn syml am yr ardal, gan gynnwys:<br>• pa fath o le maen nhw'n byw?<br>• beth maen nhw'n hoffi am eu hardal leol? Pam?<br>• beth dydyn nhw ddim yn hoffi am eu hardal leol? Pam?<br><br>Dylai dysgwyr allu ymateb yn syml ar lafar i gwestiynau cyfarwydd am eu hardal, er enghraifft:<br>• wyt ti'n hoffi dy ardal?<br>• oes...yn yr ardal?<br>• beth hoffet ti weld yn yr ardal? |
| 2.1.3<br>Elfennau iaith | Dylai dysgwyr ddeall a defnyddio yr elfennau iaith, gan gynnwys:<br>• gwahanol amserau'r ferf, er enghraifft:<br>  ◦ es i<br>  ◦ hoffwn i<br>  ◦ mwynheuais/ fwynheuais i ddim<br>• ansoddeiriau, er enghraifft:<br>  ◦ prysur<br>  ◦ bendigedig<br>  ◦ hwyl<br>  ◦ diflas<br>  ◦ tawel<br>  ◦ uchel<br>  ◦ trefnus<br>• amser a dyddiadau, gan gynnwys:<br>  ◦ amser, er enghraifft; diwrnod, wythnos, mis, blwyddyn<br>  ◦ tymhorau<br>  ◦ nesaf/diwethaf. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 3: Ysgrifennu – at ddibenion ymarferol

Asesiad ysgrifenedig
35% o'r cymhwyster
Dwy dasg
Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
20 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- galluogi dysgwyr i ysgrifennu yn syml mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn y Gymraeg
- defnyddio brawddegau syml i gyfleu gwybodaeth
- datblygu sgiliau ysgrifennu i baratoi at fyd gwaith

Disgwylir i'r ddwy thema eang isod fod yn sail i ddysgu'r iaith:

- Yr Ardal
- Byd Gwaith

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i:

- gwblhau tasg ysgrifennu sy'n ymwneud â byd-gwaith, er enghraifft ysgrifennu llythyr, e-bost, CV, ffurflen gwybodaeth bersonol neu ffurflen gais
- cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig am yr ardal leol, er enghraifft cyfleusterau, atyniadau, clybiau.

Bydd sbardunau/senarios enghreifftiol gan CBAC, fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r cyd-destun ar gyfer eu dysgwyr. Ni fydd yn rhaid i bob dysgwr gwblhau'r un senario a chyd-destun.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 - Ysgrifennu- at ddibenion ymarferol** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1- Trafod byd gwaith<br>3.1.2- Trafod yr ardal<br>3.1.3- Elfennau iaith | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.1.1<br>Trafod byd gwaith | Dylai dysgwyr allu cyflwyno gwybodaeth benodol am eu hunain gan gynnwys:<br>• enw<br>• oed<br>• byw<br>• enw'r ysgol<br>• diddordebau/hobïau<br>• math o berson<br>• swydd hoffen nhw gael<br>• sgiliau personol<br>• pynciau yn yr ysgol.<br><br>Dylai dysgwyr allu mynegi barn yn syml am fyd gwaith, er enghraifft:<br>• pam maen nhw eisiau swydd?<br>• sgiliau sydd angen ar gyfer y swydd? |
| 3.1.2<br>Trafod yr ardal | Dylai dysgwyr allu cyflwyno gwybodaeth am glybiau/cyfleusterau/atyniadau yn yr ardal, gan gynnwys:<br>• beth yw'r clwb/cyfleusterau/atyniad<br>• amser<br>• lleoliad<br>• cost<br>• manylion cyswllt<br>• manylion cyrraedd<br>• ymweliad diwethaf.<br><br>Dylai dysgwyr allu mynegi barn yn syml am yr ardal, er enghraifft:<br>• beth maen nhw'n hoffi/ddim yn hoffi am eu hardal nhw?<br>• barn am gyfleusterau yn yr ardal. |
| 3.1.3<br>Elfennau iaith | Dylai dysgwyr allu defnyddio brawddegau syml, gan gynnwys:<br>• gwahanol amser y ferf, er enghraifft:<br>    • hoffwn i gael swydd/weithio yn (mewn)<br>    • baswn i'n hoffi cael swydd/gweithio yn (mewn)<br>• sillafu geirfa cyfarwydd<br>• atalnodi. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae Cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- archwilio gwerth y Gymraeg a'i defnydd mewn cymdeithas ac yn y gweithle
- archwilio natur amrywiol dinasyddiaeth Gymreig a'i diwylliannau
- gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol
- gwneud cysylltiadau priodol gyda rhannau eraill o'r cwricwlwm
- gwrando ar y Gymraeg mewn cyd-destunau dilys
- cyfathrebu gyda chyfoedion yn Gymraeg
- archwilio traddodiadau a gwyliau Cymreig drwy iaith.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1- Deall ac ymateb**
- Deall ac ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau cyfarwydd.
- Deall ac ymateb i amrywiaeth o gwestiynau mewn cyd-destunau cyfarwydd.
- Deall prif neges o destunau darllen yn y Gymraeg.

**AA2- Mynegi a chyfathrebu**
- Cyfathrebu yn y Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau cyfarwydd.
- Cyfleu gwybodaeth ar gyfer gwahanol gyd-destunau.
- Paratoi at fyd gwaith yn y Gymraeg.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | 25% | | **25%** |
| Uned 2 | 20% | 20% | **40%** |
| Uned 3 | | 35% | **35%** |
| Pwysoliad cyffredinol | **45%** | **55%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.2 Trosolwg o'r Asesu

**Uned 1: Darllen i ddeall a chyfeirio at gyd-destunau cyfarwydd**

- Bydd yr uned hon ar ffurf dau brawf aml-ddewis ar gael am ffenestr o 4 wythnos yn ystod tymor yr haf. Mae'n rhaid i ymgeisydd sefyll y ddau brawf o fewn yr un ffenestr asesu.
- Nid oes rhaid i ymgeisydd gwblhau'r ddau brawf yn yr un sesiwn, ond mae'n rhaid cwblhau pob prawf unigol o fewn un sesiwn.
- Hyd bob prawf yw 30 munud.
- Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i ddarllen testunau syml ac ateb. cwestiynau aml-ddewis yn seiliedig ar gyd-destunau Yr Ardal a Byd Gwaith.
- Bydd yr uned hon yn cael ei gosod gan CBAC, a'i marcio gan CBAC.
- Bydd dewis gan ganolfannau i gwblhau'r prawf yn ddigidol neu ar bapur.
- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 25% o'r cymhwyster cyffredinol.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 40 marc (20 marc fesul prawf).
- Bydd yr uned hon ar gael o 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny).

**Uned 2: Llafaredd – ar gyfer bywyd bob dydd**

- Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad ymarferol.
- Mae pedwar tasg ar gyfer yr uned hon.
- Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i:
  - chwarae rôl yn seiliedig ar fyd-gwaith gan ymateb i gwestiynau
  - cyflwyno gwybodaeth ac ateb cwestiynau yn seiliedig ar eu cynefin.
- Mae senarios a chwestiynau wedi cael eu gosod gan CBAC, fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r cyd-destun ar gyfer eu dysgwyr. Ni fydd yn rhaid i bob dysgwr gwblhau'r un senario.
- Ni fydd y tasgau yn newid.
- Bydd yr uned hon yn cael ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli gan CBAC.
- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 40% o'r cymhwyster cyffredinol.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 40 marc.
- Rhaid rhoi 4-6 munud i'r ymgeiswyr i gwblhau'r asesiad hwn.
- Gall dysgwyr gael hyd at 2 awr o amser ychwanegol o dan oruchwyliaeth ffurfiol, i baratoi ar gyfer Rhan 2- Tasg 1.
- Bydd yr uned hon ar gael o 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny).

**Uned 3: Ysgrifennu - at ddibenion ymarferol**

- Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad ysgrifenedig.
- Mae dwy dasg ar gyfer yr uned hon.
- Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr i:
  - gwblhau tasg ysgrifennu sy'n ymwneud â byd-gwaith , er enghraifft ysgrifennu llythyr cais, llenwi ffurflen gais am swydd, ysgrifennu CV, ffurflen gwybodaeth bersonol/gais (hyd at 100 gair).
  - gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig am yr ardal leol , er enghraifft cyfleusterau, atyniadau, clybiau a.y.b. (hyd at 100 gair).
- Mae senarios wedi cael eu gosod gan CBAC, fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r cyd-destun ar gyfer eu dysgwyr. Ni fydd yn rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r un senario a chyd-destun.
- Ni fydd y tasgau yn newid.
- Ar gyfer Tasg 2, gall ymgeiswyr gyflwyno'r gwaith mewn fformat o'u dewis e.e. dogfen Word, PowerPoint, llythyr, e-bost, poster ac ati. Noder, gall rhai fformatau, fel posteri, er enghraifft, gyfyngu mynediad at farciau lefel uwch. Fodd bynnag, gall y fformat hwn gynnig ffordd fwy hygyrch a diddorol i ymgeiswyr lefel is gyflwyno eu gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- Bydd yr uned hon yn cael ei marcio gan y ganolfan, a'i chymedroli gan CBAC.
- Mae'r asesiad yn cyfrannu at 35% o'r cymhwyster cyffredinol.
- Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 20 marc.
- Gall ymgeiswyr gael hyd at 45 munud i gwblhau pob tasg.
- Gall ymgeiswyr gael hyd at 30 munud i gynnal ymchwil o dan amodau dan oruchwyliaeth.
- Bydd yr uned hon ar gael o 2029 (a phob blwyddyn wedi hynny).

## 3.3 Rheoli’r asesiadau

Mae dwy uned yn y cymhwyster yn cael eu hasesu drwy asesiadau di-arholiad. Mae asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at y cyfarwyddiadau sy'n rhan o ddogfen y *CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder os gwelwch yn dda **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer *Manylebau TAG a TGAU* yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

**Gosodiad Tasgau**
Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

**Cymryd Tasgau**
Mae cwblhau asesiad di-arholiad yn cael ei arwain gan reolaethau mewn pum maes: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, dilysu, a chydweithio.

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi'r cyfanswm amser sydd ar gael neu bydd yn nodi nad oes cyfyngiad amser; darperir amser a awgrymir fesul tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel y bo'n briodol.
- Adnoddau: Bydd unrhyw ofynion adnoddau penodol yn cael eu hamlinellu yn y pecyn asesu.
- Goruchwylio a dilysu: Dylai dysgwyr fel arfer gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.
- Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fo'i nodi. Rhaid i gyfraniadau unigol fod yn amlwg yn cael eu hadnabod a'u hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid i dystiolaeth fod yn briodol i bob dysgwr. Rhaid llofnodi taflenni dilysu gan yr athro a'r dysgwr.

**Marcio Tasg ar gyfer asesiad di-arholiad a aseswyd yn fewnol (Unedau 2 a 3)**
Rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Rhaid i dystiolaeth alinio â'r disgwyliadau a nodir yn y pecyn asesu.

Rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid cofnodi tystiolaeth perfformiad (e.e. cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau:

- fod dysgwyr ac athrawon wedi llofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.
- cynhelir yr asesiad yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau JCQ

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- mae dyfarniadau yn cael eu gwneud yn unig yn erbyn datganiadau'r band perfformio
- mae tystiolaeth yn ddilys, wedi'i anodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan gaiff ei ddefnyddio, mae cofnodion arsylwi yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol

Yn unedau 2 a 3, lle mae'r gwaith yn cael ei asesu gan y ganolfan, gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:
- ganiatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant gyflawni'r marc a ddymunir. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi'n fras faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fo dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na'r cyfanswm amser a awgrymir i'r tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

**Sylwer** – Ar gyfer Uned 1, sy'n cael ei asesu gan CBAC, rhaid i athrawon **beidio** â chaniatáu cyfle ychwanegol i ddysgwr wella ei dystiolaeth cyn i'r gwaith gael ei gyflwyno i CBAC i'w farcio. **Rhaid i athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu.**

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer Cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael yn 2029 a phob blwyddyn wedi hynny).

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau’r ddau brawf Uned 1 o fewn yr un ffenestr asesu.

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| | **Codau Cofrestru** |
|---|---|
| **Uned 1** | |
| **Uned 2** | |
| **Uned 3** | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Cod Cyfnewid-XXXX

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae'r cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg Craidd yn cael ei adrodd ar raddfa tri phwynt: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2 a Lefel Mynediad 3. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | **Uchafswm Marciau Crai** | **Uchafswm GMU** | **Lefel Mynediad 3** | **Lefel Mynediad 2** | **Lefel Mynediad 1** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 40 | 50 | 35 | 25 | 15 |
| **Uned 2** | 40 | 80 | 56 | 40 | 24 |
| **Uned 3** | 20 | 70 | 49 | 35 | 21 |

Mae cyfanswm y marciau unffurf ar gyfer pob uned yn arwain at radd cymhwyster:

| | **Uchafswm Marciau Crai** | **Uchafswm GMU** | **Lefel Mynediad 3** | **Lefel Mynediad 2** | **Lefel Mynediad 1** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfarniad Pwnc** | 100 | 200 | 140 | 100 | 60 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 5.4 Ailsefyll asesiadau

- Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

  Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan (Unedau 2 a 3) unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

- Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth.  Ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

- Os yw ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond wedi'i farcio yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

- Os yw ymgeisydd yn cael ei gofnodi fel un sydd wedi cael marciau '0', yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd ar gyfer asesu yn deilwng o gredyd; bydd hyn yn cael ei gyfrif fel ymgais.

- Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

- Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ailsefyll y cymhwyster.

## 5.5 Ailsefyll y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am Uned 1, yr asesiad wedi'i farcio gan CBAC, am y pedwerydd tro neu Unedau 2 neu 3, yr asesiadau wedi'u marcio gan y ganolfan, am y trydydd tro, yna mae'n rhaid iddyn nhw ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth -ailsefyll cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dau gynnig ar Unedau 2 a 3 a hyd at dri chynnig ar Uned 1. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynaliadwyedd | | | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | | |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | | | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | ✓ | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | |
| Rhyngweithio a chydweithio | ✓ | ✓ | |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.